# *THE MACHINE* (James, 2013)

## Cynhyrchu – ffilmio a golygu

## Tasg 3

**Wrth i chi wylio'r rhan hon o'r cyfweliad, gwnewch nodiadau cyn trafod y canlynol mewn parau:**

- **Pam roedd yn bwysig defnyddio camerâu digidol i ffilmio?**
- **Pam mae 'gwerthoedd cynhyrchu uchel' yn bwysig ar gyfer ffilm cyllideb isel?**
- **Faint o amser a gymerwyd i ffilmio *The Machine*? Sut mae hyn yn cymharu â ffilmiau eraill? Ydych chi'n gallu darganfod faint o amser mae'n cymryd i ffilmio ffilmiau mawr poblogaidd UDA?**
- **Pa ffyrdd amrywiol mae'r gwneuthurwyr ffilm wedi eu defnyddio i geisio sicrhau gwerth cynhyrchu uchel, a sut rydych chi'n credu maen nhw wedi llwyddo i wneud hynny?**
- **Beth mae'r gwneuthurwyr ffilm yn ei awgrymu am bwysigrwydd golygu ffilm?**

## Tasg 4

**Mewn parau neu grwpiau bach, paratowch gyflwyniad ar broses cynhyrchu *The Machine*. Lluniwch y cyflwyniad gan gyfeirio at y canlynol:**

- **Pwysigrwydd genre wrth sicrhau cyllid a chynulleidfa ar gyfer ffilmiau.**
- **Sut mae'r gwneuthurwyr ffilm wedi ceisio sicrhau cyllid i gynhyrchu'r ffilm?**
- **Y gyllideb ar gyfer y ffilm.**
- **Pwysigrwydd prosesau cyn-gynhyrchu er mwyn gweithio o fewn y gyllideb, a rhai o gamau allweddol y broses cyn-gynhyrchu.**
- **Pwysigrwydd gwerthoedd cynhyrchu uchel hyd yn oed i ffilmiau cyllideb isel, a sut maen nhw wedi ceisio sicrhau hynny yn y ffilm hon (technegau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu).**

### Adnoddau Ychwanegol

- **Lighting Lookbook 1, 2 a 3**
- **VFX**